Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.6 Cyflwyniad i Fesurau'r Cynulliad

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth yma yn esbonio beth yw Mesurau'r Cynulliad, sut y'i gwneir a sut all y sector ddylanwadu arnynt.

Beth yw Mesurau'r Cynulliad?

Deddfau yw Mesurau'r Cynulliad a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae gwneud deddfau yng Nghymru wedi bod yn bosib ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'r pwerau yma yn gyfyngedig.

Mae Deddf 2006 yn caniatáu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud deddfau (h.y. Mesurau) mewn rhai meysydd polisi (a elwir yn 'Feysydd') a ddatganolwyd o Lywodraeth y DU. Yn fwy penodol, gellir gwneud deddfau mewn meysydd ble mae gan y Cynulliad yr awdurdod cyfreithiol (a elwir yn 'gymhwysedd deddfwriaethol') i wneud hynny. Mae bodolaeth isbynciau penodol (a elwir yn 'Fesurau') sydd o fewn y Meysydd polisi yn arwydd fod gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud Mesurau ar y fath fater penodol.

Ceir mwy o wybodaeth ar Ddeddf 2006 a chymhwysedd deddfwriaethol ar daflenni gwybodaeth eraill.

Pwy all gynnig Mesur Cynulliad?

Â thybio bod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn maes arbennig, gellir cynnig Mesurau drwy:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Pwyllgorau'r Cynulliad.
- Aelod o'r Cynulliad sy'n ennill pleidlais breifat - gall AC rhoi eu henwau ar gyfer pleidlais ynghyd ag amlinelliad o beth yr hoffent ei gyflwyno. Mae hawl gan AC a ddygodd Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) gerbron ar ôl ennill pleidlais, i gynnig Mesur o fewn 6 mis i'r GCD llwyddiannus.
- Aelodau'r cyhoedd drwy broses Deisebau Cyhoeddus. Noder na fydd deiseb yn arwain at gynnig Mesur - mae taflen wybodaeth arall ar y pwnc yma.
- Comisiwn y Cynulliad - ond dim ond parthed ei swyddogaethau ei hun. Ceir taflen wybodaeth ar wahân ar Gomisiwn y Cynulliad.

Beth yw proses cymeradwyaeth Mesurau'r Cynulliad?

Mae pob Mesur y Cynulliad yn mynd drwy'r un broses:

Cam 1 - cyflwyno'r Mesur arfaethedig

- Nodir y Mesur arfaethedig gyda memo esboniadol yn gosod allan amcanion y polisi, beth mae'r darpariaethau yn y Mesur fod i gyflawni, unrhyw oblygiadau cost, os ystyriwyd dulliau eraill o gyflawni'r amcanion, a chanlyniad unrhyw ymgynghoriad cyn-deddfu a ddigwyddodd.
- Mae datganiad gan y Llywydd yn mynd gyda'r cynnig uchod yn datgan os yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
- Mae'r Pwyllgor Busnes yn penderfynu os oes angen ystyried yr egwyddorion cyffredinol gan un o'r Pwyllgorau deddfau. Os na, gall yr Aelod sy'n gyfrifol amdano gynnig bod y Cynulliad yn cytuno gyda'r egwyddorion cyffredinol drwy bleidlais yn y Sesiwn Lawn (h.y. cyfarfod llawn o'r Cynulliad).
- Os yw'r Mesur arfaethedig yn mynd at Bwyllgor deddfau, rhaid i'r Pwyllgor ystyried ac adrodd ar yr egwyddorion cyffredinol cyn i'r cynnig fynd ymlaen at bleidlais yn y Sesiwn Lawn.
- Ni chaniateir diwygiadau yn y cam yma, ac os yw'r Cynulliad yn anghytuno yn y Sesiwn Lawn, mae'r Mesur yn aflwyddiannus.

Cam 2 - Ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor deddfau

Unwaith bydd y Cynulliad wedi cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu ar ddull ystyriaeth fanwl y pwyllgor. Gall gyfeirio'r cynnig at:

- Un o'r Pwyllgorau Deddfau (yr opsiwn mwyaf cyffredin) neu Bwyllgor y Cynulliad Cyfan.
- Fe fydd yna archwiliad manwl llinell wrth linell o'r Mesur. Gellir nodi gwelliannau gan unrhyw AC (er mai aelodau'r Pwyllgor yn unig all symud, tynnu nôl neu bleidleisio ar y gwelliannau yn nhrafodion y Pwyllgor), a rhaid i'r Pwyllgor ystyried pob gwelliant a nodwyd.
- Ble bynnag nad oes gwelliant wedi'i nodi mewn adran, cytunir ar yr adran honno gan y Pwyllgor.

Cam 3 - ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad

- Ystyrir y Mesur arfaethedig gan y Cynulliad llawn mewn Sesiwn Lawn.
- Gellir nodi gwelliant gan unrhyw AC, ond yn annhebyg i Gam 2, ble mae'n rhaid ystyried pob gwelliant a nodwyd, yn y cam yma, y Llywydd sy'n penderfynu pa welliannau i'w hystyried.
- Gall yr Aelod sy'n cynnig neu unrhyw aelod o'r Llywodraeth gynnig gwelliannau pellach ond dim ond ar gyfer eglurhad.
- Ble na nodir gwelliant mewn adran, cytunir ar yr adran honno gan y Cynulliad.

Cam 4 - pleidlais olaf yn y Sesiwn Lawn

- Cynhelir pleidlais olaf yn y Sesiwn Lawn i'r Cynulliad basio'r Mesur.
- Ni chaniateir gwelliannau yn y cam yma, ac os nad yw'r Cynulliad yn cytuno, mae'r Mesur yn aflwyddiannus.

Cam 5 - cymeradwyaeth brenhinol

- Mae'r Frenhines yn rhoi Cydsyniad Brenhinol yn Ei Chyfrin Gyngor, ac mae'r Mesur yn dod yn ddeddf.

San Steffan neu ymyriad arall

Mae proses cymeradwyo Mesurau'r Cynulliad yn wahanol i Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, ble mae gan San Steffan rôl yn y broses drwy ddadleuon a phleidleisiau yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Nid oes gan San Steffan y fath rôl ym mhroses cymeradwyo Mesurau. Fodd bynnag, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymyrryd ar unrhyw gam hyd at gymeradwyaeth brenhinol, i atal y Mesur os yw'n credu fod y gymeradwyaeth yn:

- effeithio ar fater di-ddatganoli, neu
- niweidio gweithrediad y gyfraith yn Lloegr, neu
- niweidio goblygiadau rhyngwladol y DU, neu
- effeithio ar ddiogelwch cenedlaethol neu amddiffyn, neu
- effeithio cyflenwad neu adnoddau dŵr yn Lloegr.

Yn yr un modd, hyd at gymeradwyaeth brenhinol, gellir cyfeirio'r Mesur arfaethedig at Lys Cyfiawnder Ewrop neu'r Goruchaf Lys os oes unrhyw broblemau cyfreithiol sy'n gofyn am gyfeiriad o'r fath e.e. os credir ei fod yn mynd yn groes i gyfraith yr UE. Er mwyn cydymffurfio â chanlyniad barn y llys, efallai bydd rhaid newid y Mesur arfaethedig, a bydd rhaid ei ystyried gan y Cynulliad llawn mewn Sesiwn Lawn.

Sut all y trydydd sector ddylanwadu ar Fesurau'r Cynulliad?

Yn debyg i GCD, mae yna gyfleoedd i'r sector ddylanwadu Mesurau'r Cynulliad yn rhagweithiol ac yn adweithiol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r AC angen clywed oddi wrth y sector, gyda'i gyfoeth o brofiad ac arbenigedd, ar ba ddeddfwriaeth sydd ei angen. Mae'r sail tystiolaeth sydd gan y sector yn hynod bwerus wrth lobïo am newid. Mae hefyd yn werth cadw mewn golwg pa GCD sy'n dod gerbron, gan fod hyn yn rhoi amcan da o ba fath o Fesurau a ellir eu cyflwyno.

Gall lobïo LLCC ac AC ddylanwadu ar y rhaglen ddeddfwriaethol y mae LLCC yn ymrwymo i bob blwyddyn, neu ddylanwadu ar y Mesurau arfaethedig a ellir eu nodi gan Bwyllgorau'r Cynulliad neu AC sy'n ennill y bleidlais.

Yn yr un modd, mae defnyddio ffordd Deiseb Gyhoeddus yn ffordd o genhedlu Mesurau arfaethedig (neu o leiaf codi ymwybyddiaeth ar fater penodol).

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn wasanaeth sydd ar gael i bob AC, ac mae hwn hefyd yn gorff defnyddiol i gysylltu. Mae'n darparu adroddiadau cefndir ac ymchwil a geisir gan yr AC a Phwyllgorau, ac wrth ddarparu adroddiadau a gwybodaeth i'r GYA, gall y sector amlygu ei neges.

Yn nhermau dylanwadu ar Fesurau arfaethedig, mae yna gyfleoedd i gyfrannu at ymgynghoriad cyn-deddfu a pharhau i lobio gwelliannau yng nghamau 2 a 3 y broses, er bod cam 3 yn fwy cyfyngedig am nad yw pob gwelliant yn cael ei ystyried.

Gwybodaeth bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.cynulliadcymru.org

Am wybodaeth bellach ar y Mesurau cyfredol a ystyrir gan y Cynulliad, gweler:
www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures.htm

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/02/2010

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk